Metro

# Canllaw i gymunedau



TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

**Metro De Cymru (potensial)**
South Wales Metro (potential)

**Ni ddangosir pob gorsaf**
Not all stations are shown



**Mae trafnidiaeth gyhoeddus yn gwella yn Ne Ddwyrain Cymru. Bydd system drafnidiaeth newydd o'r enw Metro yn gwella gwasanaethau'r bysiau, y trenau a'r rheilffordd ysgafn.**

**Bydd Metro yn rhedeg yn amlach ac i fwy o leoedd. Bydd yn eich helpu i symud o gwmpas yn haws. Mae'r canllaw hwn yn egluro pa waith fydd yn cael ei wneud i roi'r system Metro ar waith.**



# Yn cyflwyno Metro

**Mae teithio yn newid yn Ne Cymru. Bydd Metro yn ei gwneud hi'n haws gweld ffrindiau neu deulu a symud o gwmpas gan ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.**

I gwsmeriaid, bydd yn golygu bod gwasanaethau trafnidiaeth yn rhedeg yn amlach ac yn gyflymach. Bydd yn haws cyrchu'r trenau a'r trenau tramiau a byddant yn well gwerth am arian. Hefyd, byddant yn well i'r amgylchedd.

Ar hyn o bryd rydym yn adeiladu trenau a threnau tram mwy cyfforddus. Byddant yn barod i'w defnyddio erbyn 2023.

Bydd yn haws cyrchu ein systemau trafnidiaeth newydd a bydd ganddynt fwy o le storio beiciau, yn ogystal â chael eu haerdymheru.

Bydd Metro yn rhoi hwb i'r economi yn Ne Cymru. Bydd yn helpu pobl i gyrraedd y gwaith a lleihau nifer y ceir ar ein ffyrdd.

Mae'r canllaw hwn yn egluro mwy am ein cynlluniau ar gyfer yr ychydig flynyddoedd nesaf. Mae hefyd yn egluro ein hymrwymiadau i'r gymuned leol.

Mae Metro yn ddechrau taith gyffrous i Gymru.

Budd cwsmer

**Gwasanaethau mwy rheolaidd ac amseroedd teithio cyflymach**

Budd cwsmer

**Prisiau rhatach a mwy o hygyrchedd**

Potensial economaidd

**Bydd Metro yn helpu gweithwyr i fod yn fwy symudol**

Budd amgylcheddol

**Bydd Metro yn helpu i leddfu tagfeydd ar ffyrdd**



# Adeiladu Metro

**Mae adeiladu Metro De Cymru yn brosiect enfawr sy'n costio miliynau o bunnoedd. Bydd y gwaith yn cychwyn ar Linell Craidd y Cymoedd. Fe'i cynhelir rhwng 2020 a 2023.**

Dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, bydd angen gwneud llawer o waith ar ein rheilffyrdd.

Bydd hyn yn helpu'r traciau i baratoi ar gyfer Metro. Bydd gwaith yn cychwyn ar reilffyrdd Aberdâr, Coryton, Merthyr Tudful, Rhymni a Threherbert, a elwir yn Llinellau Craidd y Cymoedd (gweler y map). Gwneir y gwaith hwn rhwng nawr a 2023.

The work we will carry out is explained n the following pages.

— Rhoi offer llinell uwchben (OLE) i bweru trenau tramiau sy'n defnyddio trydan

— Bydd signalau newydd yn cael eu rhoi yn eu lle

— Adeiladu gorsafoedd newydd yng Nghaerdydd a'r cyffiniau

— Newid pontydd, croesfannau gwastad ac offer signalau

— Rhedeg trydan dros 170km o drac

— Torri coed a llwyni sydd wedi gordyfu ger traciau rheilffordd

— Adeiladu depo newydd gwerth £100m

— Adeiladu canolfan reoli Metro yn Ffynnon Taf yn Rhondda Cynon Taf

Bydd Metro yn golygu teithiau cyflymach a gwell i deithwyr.

I bobl sy'n byw ger Metro, byddwn hefyd yn gwella rhai pethau.

### Buddion Amgylcheddol

Ar hyn o bryd mae ein trenau'n cael eu pweru gan ddisel. Fe'u defnyddiwyd ers dros 50 mlynedd. Mae'r trenau hyn yn ddrytach ac nid ydynt mor gyffyrddus. Nid ydyn nhw'n dda i'r amgylchedd.

Mae trenau sy'n rhedeg ar ddisel yn achosi mwy o lygredd a mwy o sŵn. Mae trenau disel yn drymach na threnau trydan. Mae hyn yn golygu eu bod yn gadael traul ar y traciau yn gynt. Mae'r trenau tram trydan newydd yn dawelach ac yn cynhyrchu llai o lygredd.

Bydd llai o geir ar y ffordd hefyd oherwydd bydd y trenau tram newydd yn rhedeg yn amlach. Mae hyn yn dda i'n hamgylchedd.

# Adeiladu Metro

## Gwelliannau i Ganol y Ddinas

Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, Network Rail a Chyngor Caerdydd i wneud Gorsaf Ganolog Caerdydd yn well.

Rydym hefyd yn gweithio ar orsaf fysiau newydd yng Nghaerdydd. Rydyn ni am ei gwneud hi'n hawdd i bobl gerdded a beicio, defnyddio bysiau, tacsis a dolen Bae Caerdydd.

## Sut y byddwn yn parhau i ddatblygu Metro

Rydyn ni'n gweithio gyda Chaerdydd a'r brifddinas i wella Metro De Cymru. Byddwn yn parhau i weithio ar drawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd.

## Edrych ymlaen

Mae yna lawer o brosiectau rydyn ni am weithio arnyn nhw yn y dyfodol.

Am ragor o wybodaeth,
ewch i: trc.cymru/metrobegins



# Gwaith y gallwch chi ei ddisgwyl

Er mwyn gwella ein system drafnidiaeth, bydd rhywfaint o aflonyddwch. Weithiau bydd angen i ni gau ffyrdd. Bydd rhai newidiadau i'n gwasanaethau rheilffordd. Gobeithiwn na fydd unrhyw darfu yn para'n hir.



## Offer llinell uwchben

Gelwir y pyst metel a'r gwifrau a ddefnyddir i bweru'r trenau tram newydd yn offer llinell uwchben (OLE). Bydd y pyst hyn ychydig yn uwch na'r trenau. Bydd gwifrau yn eu cysylltu.

Byddant yn darparu pŵer i'n trenau tram newydd. Bydd angen i ni ddefnyddio tua 2,500 o'r pyst hyn i wneud i Metro weithio. Byddant rhwng 20 a 65 metr oddi wrth ei gilydd ar hyd y trac. Bydd rhai yn cael eu gosod yn agos at dai.

Ni allwn ystyried ceisiadau unigol am leoli'r pyst. Mae lleoliad lle mae angen i ni roi'r pyst hyn yn dibynnu ar:

- Troadau a chromliniau yn y llinellau
- Cyflwr y ddaear
- Ffactorau diogelwch

## Rheoli llystyfiant

Mae torri coed a llwyni yn ôl yn swnllyd weithiau. Ond mae'r gwaith yma yn bwysig i'n teithwyr a'n staff. Pan gânt eu gadael i dyfu, gall planhigion achosi damweiniau a phroblemau, fel coed yn cwympo ar draciau'r rheilffordd mewn tywydd gwael.

Byddwn yn torri coed a llwyni yn ôl hyd at naw metr i ffwrdd o'r trac. Mae hyn yn fwy nag y byddem fel arfer yn ei dorri'n ôl. Mae angen mwy o le arnom i gael mwy o offer yn y dyfodol. Byddwn yn gofalu am y coed a'r llwyni ar ôl i ni eu torri'n ôl.

Bydd hyn yn sicrhau bod ein trenau'n rhedeg yn ddiogel. Rydym yn gweithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru i leihau effeithiau ein gwaith ar yr amgylchedd.

# Gwaith y gallwch chi ei ddisgwyl

## Pentyrru

Er mwyn i'r pyst offer llinell uwchben fod yn ddiogel, bydd angen i ni sicrhau bod y sylfeini'n sefydlog. Bydd hyn yn cynnwys gwaith o'r enw pentyrru. Pentyrru yw pan roddir concrit, pren neu ddur i'r ddaear i'w wneud yn ddiogel. Gall fod yn swnllyd gan ei fod yn cynnwys peiriannau trwm. Byddwn yn gwneud ein gorau i leihau'r sŵn a'r aflonyddwch.

Gall gymryd rhwng 20 a 60 munud.
Ni ddylai'r sŵn fyth bara'n rhy hir.

## Uwchraddio gorsafoedd

Byddwn yn gwneud newidiadau i gysylltiadau beicio a cherdded i wella pethau. Bydd mwy o gamerâu teledu cylch cyfyng a pheiriannau tocynnau ar gael mewn gorsafoedd.

Rydyn ni'n gwneud trenau'n fwy hygyrch. Bydd cyfleusterau toiled cwbl hygyrch hefyd wedi'u gosod mewn gwahanol orsafoedd.

Rydym hefyd yn gobeithio symud neu adeiladu gorsafoedd newydd.

Wrth i ni wella ein gorsafoedd, byddwn yn ceisio eu cadw ar agor. Ond efallai y bydd adegau pan fydd angen i ni newid ein hamserlenni neu gynnal gwasanaeth bws newydd.

## Depo Ffynnon Taf

Rydym yn adeiladu depo newydd gwerth £100m a chanolfan reoli Metro yn Ffynnon Taf yn Rhondda Cynon Taff. Bydd y depo hwn hefyd yn gartref i:

— 400 o yrwyr ac arweinwyr

— 35 aelod o staff cynnal a chadw

— 52 o staff canolfan reoli Metro

## Gweithiau ychwanegol

Rydym hefyd yn gwneud llawer o waith arall. Er enghraifft:

— Gwella pontydd ffyrdd, rheilffyrdd a thraed

— Gwneud llwyfannau yn hirach i weddu i'n trenau hirach

— Diweddaru croesfannau gwastad





# Gweithio yn ein cymunedau

Mae mwy na 50,000 o gartrefi a busnesau yn byw o fewn 200m i'n traciau rheilffordd.

Mae'n bwysig i ni ein bod yn meithrin perthnasoedd cadarnhaol â phobl sy'n byw ac yn gweithio gerllaw.

Mae llinellau Craidd y Cymoedd yn cysylltu cymunedau Treherbert, Aberdâr, Merthyr Tudful, Coryton, Rhymni a Chaerffili gyda'i gilydd - ac â chanol dinas Caerdydd.

I adeiladu Metro, efallai y byddwch weithiau'n gweld pobl allan yn gweithio ar y cledrau rheilffordd gyda'r nos pan nad yw'r trenau'n rhedeg. Mae hyn er mwyn cadw ein staff yn ddiogel.

Wrth i ni ddatblygu Metro, byddwn yn gweithio gyda chymunedau ac ysgolion lleol i:

— Chwilio am gyfleoedd i ddatblygu sgiliau plant mewn gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg (STEM)

— Cynyddu ymwybyddiaeth o swyddi yn y sector rheilffyrdd

— Chwilio am brosiectau a fydd o fudd i gymunedau

— Addysgu ar bwysigrwydd diogelwch rheilffyrdd

— Hyrwyddo cerdded a beicio

Byddwn hefyd yn sefydlu cyfarfodydd rheolaidd ac yn eich diweddaru trwy gylchlythyrau.

**Mewn niferoedd**

**55,000**

o gartrefi a busnesau o fewn 200m i linellau craidd y cymoedd

**56%**

o linellau craidd y cymoedd yn cludo 56% o holl deithwyr TfW bob dydd

**170KM**

o draciau a 56 gorsaf yn ffurfio llinellau craidd y cymoedd



# Ymgysylltu â'n cymunedau

## Rydym yn gweithio gyda chontractwyr a ddewiswyd yn ofalus i ddarparu Metro. Byddwn yn gweithredu gyda gofal a sensitifrwydd i'n cymdogion, yn ogystal â'r amgylchedd.



Byddwn yn gwneud llawer iawn o waith. Mae'n bwysig i ni ymgysylltu â chymunedau lleol i sicrhau bod y prosiect yn llwyddiant a lleihau unrhyw effaith ar y ffordd.

### Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi

Byddwn yn gwneud ein gorau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am unrhyw waith a drefnwyd. Er enghraifft, newidiadau i amserlen y rheilffyrdd, bysiau newydd neu waith peirianneg swnllyd. Ond ni fyddem yn gallu ysgrifennu at bawb y mae gwaith yn effeithio arnynt, bob tro.

Byddwn yn gwneud ein gorau i ddweud wrthych trwy ddiweddaru ein sianeli cyfryngau cymdeithasol a'n gwefan. Byddwn yn anfon llythyrau i'ch diweddaru ar ein cynnydd ar adegau allweddol.

### Gweithio gyda rhanddeiliaid

Byddwn yn gweithio'n agos gyda'n rhanddeiliaid a'n Awdurdodau Lleol i ddatblygu cynlluniau a gwrando ar adborth.

### Cynnwys grwpiau lleol

Rydyn ni eisiau clywed gan y bobl sy'n byw ac yn gweithio agosaf at ein llinellau. O ysgolion a chanolfannau cymunedol i bobl leol sy'n byw ger y traciau, byddwn yn darparu cyfleoedd i wahanol grwpiau gymryd rhan. Byddwn hefyd yn cynnal cyfarfodydd cymunedol ar bwyntiau allweddol.

### Ymateb i'ch adborth

Rydym yn croesawu eich adborth gan y bydd hyn yn ein helpu i wella.

Byddwn yn darparu ffyrdd syml, dwyieithog am ddim i gysylltu. Byddwn yn darparu ymatebion i'ch pryderon.

I gael mwy o wybodaeth am waith yn eich ardal chi, ewch i: workinyourarea.trc.cymru

# Ein hymrwymiadau i chi

**Rydym yn ddiolchgar am eich amynedd tra bod y gwaith pwysig hwn yn digwydd. Rydym am barhau i fod yn onest ac yn agored trwy gydol y broses hon. Rydym yn gwybod y bydd peth o'n gwaith yn aflonyddgar. Dyma ein hymrwymiadau allweddol i fod yn gymdogion da.**



## 1

Byddwn yn sicrhau bod ein safleoedd yn cael eu rheoli'n dda a bod ein pobl yn ystyriol o gymdogion.

## 2

Byddwn yn gweithio'n agos gyda chymunedau a busnesau lleol i egluro'r hyn rydym yn ei wneud a dod o hyd i ffyrdd o darfu cyn lleied â phosibl.

## 3

Byddwn yn dweud wrthych am hynt Metro trwy rannu manylion ar ein gwefan ac anfon llythyrau ar gerrig milltir allweddol.

## 4

Byddwn yn ceisio lleihau sŵn lle bynnag y bo modd, a gosod generaduron i ffwrdd o gartrefi.

## 5

Byddwn yn defnyddio goleuadau LED i leihau llygredd golau a sicrhau bod colofnau goleuadau'n cael eu cyfeirio i ffwrdd o gartrefi.

## 6

Byddwn yn cynnal asesiadau ar bob safle. Er enghraifft, asesiadau traffig ar gyfer cau ffyrdd o bosibl.

## 7

Byddwn yn cynnal arolygon i chwilio am unrhyw rywogaethau gwarchodedig neu adar sy'n nythu yn yr ardal. Os canfyddir unrhyw rywogaeth, yna rhoddir dulliau gweithio priodol ar waith.

## 8

Byddwn yn gwneud ein gorau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am darfu ar eich gwasanaethau lleol. Gwiriwch cyn teithio oherwydd bydd angen i wasanaethau bws newydd redeg ar adegau penodol.

# Cael eich diweddaru

Cadwch lygad allan am y wybodaeth ddiweddaraf trwy ymweld â'n gwefan yn: tfw.wales/south-wales-metro

Dilynwch ni ar gyfryngau cymdeithasol i gael diweddariadau rheolaidd.

Byddwn yn postio diweddariadau cynnydd a manylion gwaith yn y dyfodol ar y dudalen cymunedau: tfw.wales/our-communities

I gael gwybodaeth am newidiadau i wasanaethau, rheilffyrdd a bysiau newydd, ewch i'n gwefan reilffordd: tfwrail.wales/metro

## Cysylltwch

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â ni a byddwn yn eu hateb.

**E-bostiwch ni**
tfwrail.wales/contactus

**Ffoniwch ni**
0333 3211 202

**Ysgrifennwch atom**
**Rhadbost**
Cysylltiadau Cwsmer Trafnidiaeth Cymru

**Gwefan**
tfw.wales

**Twitter**
transport_wales

**Instagram**
transport_wales

**Facebook**
Transport for Wales
Trafnidiaeth Cymru



Mae nifer o brosiectau ar gyfer Metro De Cymru wedi'u hariannu'n rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop trwy Lywodraeth Cymru.

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfa Datblygu
Rhanbarthol Ewrop
European Regional
Development Fund

FSC
www.fsc.org
RECYCLED
Made from recycled material
FSC® C000000